

UrgoStart ar gyfer trin wlsrau diabetig ar y traed ac ar y coesau

31 Ionawr 2019

Gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae NICE wedi asesu UrgoStart ar gyfer trin wlsrau diabetig ar y traed ac ar y coesau er mwyn helpu'r GIG i benderfynnu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio.

Dylid ystyried rhwymau UrgoStart ar gyfer wlsrau diabetig ar y traed ac wlsrau gwythiennol ar y goes gan fod y dystiolaeth yn dangos eu bod yn gweithio'n well na rhwymau cyffredin. Ni ddylid eu defnyddio ar gyfer wlsrau ar y goes nad ydynt yn rhai gwythiennol.

ISBN: 978-1-4731-3249-8